OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 2670 (Cy. 285)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park i Bont Heol Pillmawr, Casnewydd) (Cyfyngiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed 07 Tachwedd 2011

Yn dod i rym 21 Tachwedd 2011

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar y traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Tachwedd 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Grove Park i Bont Heol Pillmawr, Casnewydd) (Cyfyngiad Traffig Dros Dro) 2011.

(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 09.30 o'r gloch ar 21 Tachwedd 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio, gyrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiad y cyfeirir ato yn yr erthygl honno mewn grym.

5. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 07 Tachwedd 2011

G R Morgan
G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(**1**) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

YR ATODLEN

Hyd a lled y terfyn cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o gerbytffordd yr A4042 tua'r gogledd, o bwynt yn ei chyffordd â Chylchfan Grove Park hyd at bwynt ar linell ganol Pont Heol Pillmawr.